



Cysylltu
Trawsfurfio
Cymell

ICTM

Connect
Transform
Motivate

Innovation

Daliwr Samplau Labordy Patholeg

AMCAN

Daeth y tîm Arloesedd o hyd i her yn Adran Marwdai Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Efallai y bydd archwiliad post-mortem nodweddiadol yn gofyn i'r Patholegydd gymryd hyd at ddau Gynhwysydd Cyffredinol a hyd at chwe ffiol gwaed. Dim ond lle i hyd at ddau sampl ar unrhyw adeg benodol oedd gan y Daliwr yn y Corffdy a oedd yn cael ei ddefnyddio, yn ogystal â bod â dim ond un opsiwn lliw.

ATEBION

Yr ateb oedd creu Daliwr Samplau Labordy Patholeg sy'n gallu dal chwe ffiol gwaed, dau gynhwysydd cyffredinol a slot ar gyfer ffurflen gais Patholeg sy'n adnabyddadwy i'r claf, yn ogystal â bod ag opsiynau aml-liw er mwyn iddyn nhw fod yn adnabyddadwy i'r Patholegydd Ymgynghorol os y byddan nhw'n cael eu storio.

MANTEISION

Mantais Un

Dyluniad cynnyrch o ansawdd uchel ac amlbwrpas y gellir ei lanhau'n hawdd gyda chadachau Clinell a gellir ei storio mewn oergell.

Mantais Dau

Mae ganddo slot i gadw Ffurflenni Cais Cleifion mewn bag clir.

Mantais Tri

Gweithgynhyrchu Lleol. Ôl Troed Carbon is. Gan weithio gydag Innotech Ltd, roedden ni'n gallu cael y cynllun prototeip cyflym wedi'i drawsnewid i ddyluniad Torrwr Laser y gellir ei dorri a'i siapio o un ddalen o blastig Polypropylen. Erbyn hyn mae'r cynnyrch gorffenedig ar gael i'w prynu drwy Oracle neu'n uniongyrchol drwy Innotech Ltd.



"Unwaith i ni nodi problem yn Adran y Corffdy, roedden ni'n gallu meddwl am ateb arloesol sydd bellach nid yn unig o fudd i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, ond sydd hefyd ar gael i'w brynu ar y farchnad fasnachol."

Lauren Ware

